

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	13 Mawrth 2019
TEITL YR ADRODDIAD:	Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Darparu gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru hyd yma (cyfnod cyhoeddi Medi 2018 – Mawrth 2019)
ADRODDIAD GAN:	Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
SWYDDOG CYSWLLT:	Lynn Ball Swyddog Monitro / Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) lbxcs@ynysmon.gov.uk 01248 752586

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

1. Ffurio tribiwnlysoedd achosion, neu dribiwnlysoedd achos interim, er mwyn ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn dilyn ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod; ac
2. I ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau eu hawdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a roddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 12 Medi 2018. Bwriedir iddo fod yn grynodedd ffeithiol o'r materion a benderfynwyd gan y PDC. Mae'r achosion a nodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar [Wefan y PDC](#)

2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Mae crynodeb o'r achosion perthnasol wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1**.

2.1 Penderfyniadau a wnaed

19.07.2018 – Cyn Gyngorydd Sir yng Nghyngor Sir Fynwy [Cyngorydd Cymuned ar hyn o bryd yng Nghyngor Cymuned Matharn] – APW/003/2017-018/CT

2.2 Apeliadau a benderfynwyd

Dim

3. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys y crynodeb(au) achosion.

Crynodeb o'r Achosion Tribiwnlys – Ebrill 2018 – Mawrth 2019

Enw	Crynodeb o'r Ffeithiau	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
<p>Cyn Gyngorydd Sir (bellach yn Gyngorydd Cymuned) Graham Down</p> <p>Cyngor Sir Fynwy (Cyngor Cymuned Matharn ar hyn o bryd)</p>	<p>Honiad bod y Cyngorydd Down wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir Fynwy drwy fethu â dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill drwy anfon negeseuon e-bost at Brif Weithredwr Cyngor Sir Fynwy a oedd yn cynnwys datganiadau homoffobig a bod hynny yn honedig yn torri Paragraff 4(b) o'r Cod.</p> <p><i>[Mae'r mater hwn wedi'i drafod yn Atodiad 2 o Eitem 6 ar y Rhaglen– penderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru].</i></p>	<p>Canfu'r Panel bod y rheolau canlynol wedi'u torri o dan baragraff 4(b) - Methu â dangos parch ac ystyriaeth:</p> <p>(i) Penderfynodd y Panel nad oedd 2 o'r sylwadau a wnaed gan y Cyngorydd i'r Prif Weithredwr drwy negeseuon e-bost yn dangos parch ac ystyriaeth tuag at ran o'r gymdeithas y mae ei nodweddion wedi'u diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.</p> <p>(ii) Penderfynodd y Panel fod sylwad arall yn mynegi safbwynt homoffobaidd eithafol a oedd yn gwbl anghymarus â'r Cod Ymddygiad a'i egwyddorion creiddiol ar gyfer ymddygiad cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>(iii) Roedd y Panel o'r farn bod 3 o sylwadau eraill yn amharchus / difriol. Fodd bynnag, roedd y Panel, o ganlyniad i'r warchodaeth uwch a roddir i fynegiant gwleidyddol, yn derbyn nad oedd y sylwadau hyn, er yn debygol o fod yn amharchus i rai, yn cyfiawnhau cyfyngu ar hawl y Cyngorydd i'w ryddid i fynegi barn ar mwyn cyfiawnhau bod y Cod wedi cael ei dorri.</p>	<p>Pwyntiau i'w dysgu ar gyfer Aelodau Etholedig</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall bod cyfathrebiadau o gyfeiriad e-bost y Cyngor i swyddog o'r Cyngor yn cael ei ystyried fel cyfathrebiad yn eich rôl fel Cyngorydd a bod y Cod Ymddygiad felly yn berthnasol. • Mae cydnabod camgymeriad a dangos edifeirwch a mewnwleidiad yn gweithio o blaid Cyngorydd pan fydd Panel Dyfarnu Cymru yn ystyried cosbau. • Bydd mynychu hyfforddiant Ymddygiad yn cynorthwyo Aelodau i wella eu dealltwriaeth a bydd yn gweithredu fel ffactor lliniaru gerbron Panel Dyfarnu Cymru. • Gan nad yw'r Cyngorydd Down wedi sefyll i gael ei ail-ethol fel Cyngorydd Sir, ni allai'r gosb a roddwyd fod yn berthnasol i'r Cyngor Sir. Fodd bynnag, daeth yn Gyngorydd Cymuned gyda Chyngor Cymuned Matharn ac o dan adran 79 Deddf Llywodraeth Leol 200, mae'r ddeddfwriaeth yn

Enw	Crynodeb o'r Ffeithiau	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
		<p><u>Cosb</u> Roedd y Tribiwnlys Achos, o ganlyniad i ffactorau lliniaru megis (a) bod yr achos o dorri'r rheolau wedi codi o ganlyniad i farn ddilys a chryf; (b) bod gan y Cynghorydd hanes o wasanaeth da; a'r nodweddion sy'n gwaethygu megis (a) heb fynychu hyfforddiant ymddygiad (b) patrwm o ymddygiad ailadroddus (c) diffyg edifeirwch neu mewnwelediad, y dylai'r Cynghorydd gael ei wahardd rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Cymuned Matharn am gyfnod o ddau fis, neu weddill ei amser yn y rôl os yw'r cyfnod hwnnw'n fyrrach.</p> <p>Ystyriodd y Panel y byddai gwahardd yr aelod am gyfnod byr yn gymesur ac ystyriwyd mai dau fis fyddai'r gosb leiaf a fyddai'n angenrheidiol yn wyneb y ffaith nad yw nifer o Gyngorau Tref a Chymuned yn cynnal unrhyw gyfarfodydd Cyngor ffurfiol yn ystod mis Awst.</p>	<p>caniatáu i'r Tribiwnlys Achos wahardd y Cynghorydd o Awdurdod gwahanol i'r un ble digwyddodd y camymddwyn. O ganlyniad, gwaharddwyd y Cynghorydd o Gyngor Cymuned am dorri'r Cod yn ei rôl fel Cynghorydd Sir.</p> <p>Pwyntiau i'w dysgu ar gyfer y Pwyllgor Safonau</p> <p>- Ystyriodd y Panel baragraff 4(b) o'r Cod Ymddygiad: "Rhaid i chi ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill". Ystyriodd y Panel hefyd fod y Cod yn cael ei danategu gan egwyddorion penodol ac mae paragraff 2(2) o'r Cod yn nodi: "Dylech ddarllen y cod hwn ynghyd â'r egwyddorion cyffredinol a nodir dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewn perthynas â Chymru". Yr egwyddor berthnasol yw: "Rhaid i Aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth ddigonol i'r angen i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle i bawb beth bynnag eu rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd a dangos ystyriaeth tuag at eraill."</p> <p>Roedd y Panel yn fodlon bod y</p>

Enw	Crynodeb o'r Ffeithiau	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
			<p>negeseuon e-bost wedi eu hanfon gan y Cyngorydd yn ei gapasiti swyddogol ac roedd y Cyngorydd yn barod i ailadrodd y sylwadau a wnaed yn y negeseuon e-bost yn ehangach ac yn gyhoeddus ac o ganlyniad cafodd paragraff 4(b) ei ystyried.</p> <p>- Ystyriodd y Panel hefyd y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r Cod yng ngoleuni Erthyglau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.</p> <p>Mae erthygl 8(1) fel y nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi: “Mae gan bawb yr hawl i ddisgwyl y bydd eu bywyd preifat a'u bywyd teuluol yn cael ei barchu.”</p> <p>Mae Erthygl 9(1) yn cyfeirio at yr “hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd” yn amodol ar y cyfyngiad yn 9(2).</p> <p>O fewn ei negeseuon e-bost, roedd y Cyngorydd wedi cyfeirio at bod yn Gristion ac wedi dyfynnu o'r Hen Destament. Derbyniodd y Tribiwnlys, wrth ddarllen yn eang, bod Erthygl 9(1) wedi ei weithredu.</p> <p>Mae Erthygl 10(1) yn cyfeirio at yr “hawl i</p>

Enw	Crynodeb o'r Ffeithiau	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
			<p>ryddid mynegiant" yn amodol ar y cyfyngiad yn 10(2).</p> <p>Roedd y Panel yn fodlon bod yr holl sylwadau perthnasol yn y negeseuon e-bost yn denu'r warchodaeth lawn ac uwch a roddir i wleidyddion sy'n mynegi eu barn wleidyddol gan eu bod i gyd wedi eu gwneud yng nghyd-destun gweinyddiaeth gyhoeddus. Ystyriwyd bod sylwadau'r Cynghorydd yn fynegiant gwleidyddol yn yr ystyr ehangaf.</p> <p>- O ran y 3 sylw a wnaed yn y negeseuon e-bost a oedd, fe ystyriwyd, wedi torri'r Cod, roedd y Panel o'r farn bod dod i'r casgliad bod y Cod wedi'i dorri yn "angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd...ar gyfer amddiffyn hawliau a buddiannau eraill, yn unol ag Egwyddorion Cymru.</p> <p>- Ystyriodd y Panel achosion Calver, Sanders v Kingston Rhif 1 [2005] EWHC 1145 a Heesom v Ombwdsom Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru [2014] EWHC 1504 (Gweinyddol).</p> <p>- Ystyriodd y Panel Ddeddf Cydraddoldeb 2010.</p>